Epidural Information Card - Welsh

Carden Gwybodaeth am Epidiwrol

(Epidiwrol ar gyfer esgor. Ceir mwy o wybodaeth o www.oaaformothers.info
Trafodwch unrhyw elfen nad yw'n esboniadwy gyda'ch anaesthetydd).

Paratoi am epidiwrol

- Bydd angen rhoi caniwla i mewn i'r wythïen ac o bosib drip o hylif yn rhedeg trwyddo.
- Pan fydd yr epidiwrol yn cael ei osod, mae'n bwysig i chi gadw'n llonydd ac i adael i'r anaesthetydd wybod os ydych ar fin cael cyfangiad.
- Mae'n cymryd tua ugain munud i sefydlu'r epidiwrol fel arfer ac yna hyd at ugain munud arall cyn iddo ddechrau gweithio.
- Weithiau nid yw'r epidiwrol yn gweithio'n ddigon da ac fe fydd angen ei addasu neu ei newid.

Manteision o gael epidiwrol

- Mae'n gallu lleddfu'r boen yn arbennig o dda fel arfer.
- Weithiau fe roddir pigiad cefn (spinal) yn gyntaf cyn yr epidiwrol i gael effaith mwy cyflym.
- Gellir addasu cryfder a math yr anaestheteg lleol trwy'r epidiwrol i'ch galluogi chi i barhau i symud. Gelwir hwn yn epidiwrol symudol (mobile) neu yn epidiwrol dogn isel.
- Nid yw'r epidiwrol yn effeithio ar y babi fel rheol.
- Gall epidiwrol gael ei gryfhau wrth ychwanegu mwy o anaestheteg lleol iddo i'w wneud yn addas ar gyfer llawdriniaeth toriad cesaraidd petai angen.

Problemau a all ddigwydd gyda'ch epidiwrol

- Gall achosi coesau trymaïdd neu wan dros dro wedi ychwanegiadau aml o anaestheteg lleol cryfach. Fe all wneud genedigaeth â chymorth gefel neu ventouse yn fwy tebygol.
- Gall ymestyn ail gam yr esgor.
- Gall ostwng pwysedd eich gwaed, achosi tymheredd neu gosi.
- Gall y man gosodwyd yr epidiwrol deimlo'n dyner am ddiwrnod neu ddau. **NID** yw epidiwrol yn achosi poen cefn, ond mae poen cefn yn gyffredin yn ystod beichrogrwydd.

Mae ochr arall y garden yma yn rhoi gwybodaeth am broblemau pwysig a welir yn sgîl cael epidiwrol.

© Obstetric Anaesthetists' Association January 2008

Epidural Information Card - Welsh

Carden Gwybodaeth am Epidiwrol

Risgiau a welir yn sgîl cael epidiwrol neu bigiad cefn i leddfu poen esgor

Math o broblemau	Pa mor aml mae hyn yn digwydd?	Pa mor gyffredin yw e?
Gostyngiad sylweddol mewn pwysedd gwaed	1 mewn pob 50 menyw	Achlysurol
Heb weithio'n ddigon effeithiol i leddfu poen yr esgor yn llawn ac felly angen defnynyddio dulliau ychwanegol o boen laddwyr	1 mewn pob 8 menyw	Cyffredin
Heb weithio'n ddigon effeithiol ar gyfer llawdriniaeth ac felly'n gwneud anaestheteg gyffredinol yn anghenrheidiol	1 mewn pob 20 menyw	Achlysurol
Cur pen drwg	1 mewn pob 100 meynw (epidiwrol) 1 menw pob 500 menyw (pigiad cefn)	Anghyffredin
Niwed i'r nerfau: (diffrwythder yn y goes neu'r droed, teimlad o binnau bach neu goes wan)	Symptomau dros dro 1 mewn pob 1000 menyw Symptomau parhaol 1 mewn pob 13,000	Prin Prin
Cornwyd epidiwrol Llid yr ymenydd Ceulad gwaed epidiwrol	1 mewn pob 50,000 menyw 1 mewn pob 100,000 menyw 1 mewn pob 170,000 menyw	Prin iawn Prin iawn Prin iawn
Anymwybyddiaeth damweiniol	1 mewn pob 100,000	Prin iawn
Problemau difrifol gan gynnwys y parlys	1 mewn pob 25,000 menyw	Ofnadwy o brin

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael o'r dogfennau presennol yn rhoi ffigurau hollol fanwl ar gyfer y risgiau hyn. Dim ond amcangyfrif yn unig yw'r ffigurau uchod a gallen nhw fod yn wahanol a gwahaniaethu rhwng ysbytai yn ogystal. .

Mae ochr arall y garden yn rhoi gwybodaeth am epidiwrol ar gyfer poen esgor.

© Obstetric Anaesthetists' Association January 2008